
**Bwrdd y Rhaglen TB mewn Gwartheg – Papur Sefyllfa 2025**

## Crynodeb

Mae tystiolaeth o ffigurau[1] Llywodraeth Cymru ei hun yn dangos yn glir na fydd ei tharged ar gyfer ddileu TB mewn Gwartheg yng Nghymru erbyn 2041 yn cael ei gyflawni.




Amcanestyniad llinellol o fynychder yn y cyfnod blynyddol sy'n dangos y llwybr presennol a'r llwybr sydd ei angen er mwyn dileu TB erbyn 2041

Gosodwyd y targed hwn yng Nghynllun Cyflawni Pum Mlynedd Llywodraeth Cymru 2017 ar gyfer Dileu TB[2]. Roedd ailstrwythuro'r trefniadau llywodraethu'n rhan o ddull wedi'i adnewyddu ar gyfer y cyfnod 2023–2028[3]. O ganlyniad, sefydlwyd Bwrdd y Rhaglen Dileu TB Gwartheg[4] (y Bwrdd) a Grŵp Cynghori Technegol[5] (GCT) ar wahân sy'n rhannu gwybodaeth, arbenigedd a thystiolaeth er mwyn rhoi cyngor ar bolisïau dileu TB yng Nghymru yn y dyfodol. Fel rhan o'r gwaith o ailstrwythuro'r trefniadau llywodraethu, gofynnwyd i'r Bwrdd gyhoeddi Papur Sefyllfa ar ddileu TB yng Nghymru.

## Safbwynt y Bwrdd ar bolisi i ddileu TB mewn Gwartheg yng Nghymru

Mae'n amlwg, er mwyn gwella'r llwybr presennol, **fod angen newid sylweddol o ran cyflymder a'r adnoddau sy'n cael eu neilltuo i ddileu TB er mwyn cyflawni'r targed ar gyfer Cymru sydd Heb TB yn Swyddogol erbyn 2041.** Mae gan Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd (WOAH) ofynion penodol[6] cyn y gall gwlad ennill Statws Heb TB Swyddogol, sy'n cynnwys polisi cenedlaethol ar gyfer atal trosglwyddo TB Gwartheg (*M.bovis*) o fywyd gwyllt i wartheg. Mae cyngor gan y Bwrdd a'r TAG eisoes wedi arwain at newid yn y polisi ynghylch Lladd Ar y Fferm a rheoli gwartheg Adweithyddion Amhendant Safonol sydd wedi'u clirio, ond rhaid i bolisi yn y dyfodol ystyried y tair poblogaeth yr effeithir arnyn nhw gan TB Gwartheg - gwartheg, pobl a bywyd gwyllt. Mae'r Bwrdd o'r farn:

- Bod dull partneriaeth yn hanfodol i gyflawni'r nod hwn
- Er mwyn cyflymu'r cynnydd wrth ddileu'r clefyd hwn, rhaid defnyddio strategaeth gynhwysfawr sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dadansoddiadau gwyddonol, gan symud o ddefnyddio'r un polisi blanced ar gyfer pawb i ddefnyddio ymyriadau mwy lleol sy'n seiliedig ar dystiolaeth


- Mae angen ymchwiliad i wybod a yw'r drefn brofi bresennol a'r polisi ar reolaethau symud yn addas at y diben[7] a dylid ystyried offerynnau diagnostig eraill a dulliau arloesol eraill sydd ar gael ac y gellid eu haddasu i ddatblygiadau a gwelliannau yn y dyfodol yn y maes hwn
- Bydd darparu data i lywio penderfyniadau gan ffermwyr a'u milfeddygon [8] ynghylch rheoli risg yn eu buchesi yn galluogi rhagor o atebolrwydd a chyfrifoldeb am TB Gwartheg
- Dylid adolygu negeseuon i sicrhau eu bod yn cael eu deall gan y gynulleidfa a dan sylw[8]
- Rhaid i ymyriadau reoli clefydau mewn ffordd gynaliadwy sy'n caniatáu i fusnesau fferm barhau i weithredu'n broffidiol[9]
- Dylid rhoi ystyriaeth briodol i effaith polisïau ar iechyd meddwl a chorfforol[10] yr holl randdeiliaid, gan gynnwys ffermwyr, milfeddygon a phersonél y corff rheoleiddio
- Mae tystiolaeth bod bywyd gwyllt yn rhan o epidemioleg y clefyd[11], ond mae angen rhagor o wyliadwriaeth ac ymchwil i ddarparu data a thystiolaeth gynhwysfawr i lywio'r broses o ddatblygu polisi priodol ar gyfer rheoli clefydau ym mhob rhywogaeth yr effeithir arni
- Mae angen ymchwilio pellach i nodi ble y byddai'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth yn cefnogi ymyriadau epidemiolegol i fynd i'r afael â'r clefyd mewn bywyd gwyllt, gan ystyried strategaethau i nodi llwyddiant i sicrhau bod llwybr gweithredu wedi'i gynllunio'n glir yn cael ei nodi[11]
- Nid yw'r clefyd yn parchu ffiniau ac mae'n rhaid cydweithio a rhannu ymchwil, data a thystiolaeth ar draws rhanbarthau deddfwriaethol y DU a'r tu hwnt
- Nid yn unig mae TB Gwartheg yn effeithio ar yr economi amaethyddol ond mae hefyd yn cael effaith ar yr economi ehangach ac ar drethdalwyr. Mae angen ystyried adnoddau digonol ar gyfer pob agwedd ar ddileu TB Gwartheg, er mwyn cyflawni targedau presennol. "Bydd buddsoddi heddiw yn arbed arian yn y dyfodol". (Godfray et al. 2025:2)[12]
- Er mwyn cyflawni'r Rhaglen Dileu TB yn effeithiol yn y tymor hir, mae'n hollbwysig bod Bwrdd y Rhaglen a'r GCT yn derbyn cefnogaeth barhaus a chyson. Agwedd hanfodol ar y strwythur llywodraethu hwn yw bod gwaith y Bwrdd a'r GCT yn parhau i fod yn gwbl annibynnol ar ddylanwad gwleidyddol[13].

Mae'r Bwrdd a'r GCT wedi ymrwymo i ddull cyfannol o ddileu TB Gwartheg yng Nghymru. Dylai'r strategaeth ddileu fod yn gost-effeithiol, gan ddefnyddio'r gyfres o fesurau sy'n achosi'r niwed lleiaf i'r nifer isaf o anifeiliaid, da byw neu fywyd gwyllt, a rhaid i bob cam gael ei lywio gan dystiolaeth wyddonol. Mae ffermwyr, milfeddygon a'r diwydiant gwartheg ehangach yng Nghymru yn haeddu'r cyfle i weithredu heb fygythiad TB Gwartheg yn y dyfodol, felly mae angen gweithredu yn ddi-oed.


## Atodiad

[1] 'Dangosfwrdd TB Gwartheg' Llywodraeth Cymru. Mae'r dangosfwrdd rhyngweithiol yn dangos y data diweddaraf ar gyfer gwyliadwriaeth epidemiolegol.
https://www.llyw.cymru/dangosfyrddau-tb-mewn-gwartheg-hyd-fis-mawrth-2025

Mae data hyd at a chan gynnwys 2024 yn dangos bod mynychder mewn buchesi ledled Cymru, sef canran y buchesi ledled Cymru sydd â TB Gwartheg gweithredol, yr ystyrir nad ydyn nhw heb TB yn swyddogol, wedi aros yn gyson rhwng 5 a 6 y cant.




Nid yw asesiadau o fynychder mewn buchesi, sef canran yr achosion newydd o TB mewn profion gwyliadwriaeth ar fuchesi heb TB yn swyddogol, ar lefel ranbarthol yn dangos fawr o welliant chwaith.




[2] Rhaglen Dileu TB Llywodraeth Cymru (2017); Strategaeth https://www.llyw.cymru/rhaglen-dileu-tb-gwartheg-strategaeth a thargedau https://www.llyw.cymru/tb-gwartheg-targedau-dileu

[3] 'Cynllun Cyflawni 2023' Llywodraeth Cymru https://www.llyw.cymru/rhaglen-dileu-tb-gwartheg-cymru-cynllun-cyflawni-2023

[4] Mae'r Bwrdd Rhaglen yn cynnwys aelodau a benodir yn gyhoeddus, gan gynnwys ffermwyr gweithredol, cynrychiolwyr o'r GCT, Cymdeithas Milfeddygol Prydain (BVA), Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), NFU Cymru (NFUC), yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (NT), Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Cymru (CFfCC) a'r Rhwydwaith Cymunedau Ffermio (FCN).

[5] Mae'r Grŵp Cynghori Technegol yn darparu arbenigedd technegol a gwyddonol annibynnol i'r Bwrdd. Mae aelodau GCT yn cynnwys gwyddonwyr, gweithwyr proffesiynol milfeddygol a chynrychiolydd o'r Bwrdd.

[6] Diffiniad WOAH o'r hyn sy'n gymwys ar gyfer Statws Heb TB Swyddogol: Pennod 8.11 ac yn benodol 8.11.4
https://www.woah.org/fileadmin/Home/eng/Health_standards/tahc/2018/en_chapitre_bovine_tuberculosis.htm

[7] Mae'r GCT wedi dechrau adolygu'r dystiolaeth ynghylch y strategaeth brofi a symud bresennol. Byddan nhw hefyd yn ystyried datblygiadau ac arloesi ym maes profi cyn adrodd i'r Bwrdd.

[8] Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu â Ffermwyr a TB Gwartheg: argymhellion 2022
https://www.llyw.cymru/grwp-gorchwyl-gorffen-ar-ymgysylltu-ffermwyr-tb-mewn-gwartheg-argymhellion

[9] Tynnodd ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer Defra yn 2020 sylw at gostau canolrifol colli Statws Heb TB i fusnesau ffermio. Estimating the consequential cost of bovine TB incidents on cattle farmers in the High Risk & Edge Areas of England & High and Intermediate TB Areas of Wales. Mehefin 2020
https://randd.defra.gov.uk/ProjectDetails?ProjectID=19957&FromSearch=Y&Publisher=1&SearchText=se3139&SortString=ProjectCode&SortOrder=Asc&Paging=10#Description

[10] Smith, W., McCann, J., Phillimore, A. a Jones, L. (2025) The Farming Community Network (FCN) Finding the Box-Top: 'Addressing the human cost of bTB' https://fcn.org.uk/wp-content/uploads/2025/01/bTB-report-2025-final-Addressing-the-human-cost-of-bTB.pdf

[11] Ar hyn o bryd mae'r GCT yn ystyried ac yn adrodd i'r Bwrdd ar y dystiolaeth ynghylch bywyd gwyllt. Bydd hyn yn llywio cyngor gan y Bwrdd i Lywodraeth Cymru.

[12] Godfray et al (2025) Bovine TB Strategy Review Update
https://www.gov.uk/government/publications/bovine-tuberculosis-godfray-evidence-review-update-2025

[13] Mae aelod o'r Bwrdd a'r GCT yn cael eu penodi am gyfnod o bum mlynedd, gan ganiatáu iddyn nhw ddatblygu gwybodaeth helaeth am bob agwedd ar broblem TB Gwartheg. Mae hyn yn caniatáu dull strategol parhaus sy'n hanfodol ar gyfer her gymhleth a hirdymor fel dileu TB Gwartheg. Mae hefyd yn hanfodol bod gwaith Bwrdd y Rhaglen a'r GCT yn parhau i fod yn gwbl annibynnol ar ddylanwad gwleidyddol. Drwy weithredu y tu allan i gylch gwaith gwleidyddol uniongyrchol, gall Bwrdd y Rhaglen ganolbwyntio ar realiti gwyddonol ac ymarferol dileu TB, gan wneud penderfyniadau sy'n cael eu gyrru gan gonsensws arbenigol ac anghenion y Rhaglen.